**Dadansoddiad o’r Bylchau**

Fel rhan o’r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, cynhelir dadansoddiad i ganfod bylchau mewn digonolrwydd gofal plant. Mae hwn yn seiliedig ar ddata gan rieni, data cyflenwad a galw, ymgynghori a’r holl wybodaeth allweddol arall a nodwyd drwy gwblhau’r asesiad llawn.

Fel drwy gydol yr asesiad, defnyddiwyd y codau post canlynol drwy’r ddogfen. Mae’r tabl isod yn nodi’r ardaloedd sy’n perthyn i bob ardal cod post:

| | |
|---|---|
| CF31 | Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla, Coety, Pen-y-fai |
| CF32 | Cefn Cribwr, Trelales, Cwm Ogwr, Tondu, Sarn, Ynysawdre, Pontycymer, Llangeinwyr, Cwm Garw, Blaengarw, Melin Ifan Ddu, Betws ac Abercynffig. |
| CF33 | Corneli a’r Pîl |
| CF34 | Tref Maesteg, Llangynwyd, Caerau, Nantyffyllon |
| CF35 | Pencoed, Llangrallo |
| CF36 | Porthcawl, Notais a’r Drenewydd yn Notais |
| CF39 | Evanstown and Gilfach Goch |

At ddibenion yr adroddiad, mae gwybodaeth am CF32 a CF39 wedi’i hadrodd o dan ddata CF32.

Mae rhai ardaloedd o Coety, yn cynnwys datblygiad newydd, yn perthyn i CF35, ond byddant yn cael eu rhoi o dan CF31 at ddibenion yr adroddiad hwn.

Cwblhaodd 192 o rieni'r arolwg rhieni. Mae ymatebion allweddol wedi rhoi gwybodaeth i’r dadansoddiad o’r bylchau am amrywiaeth o ffactorau. Y rhain yw:

- Fforddiadwyedd
- Darpariaeth cyfrwng Gymraeg
- Gofal plant annodweddiadol
- Gofal plant yn ystod gwyliau’r ysgol
- Gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol
- Darpariaeth gwarchod plant
- Darpariaeth ar ôl ysgol a gwyliau
- Gwybodaeth i deuluoedd

Nodwch, er bod 192 o rieni wedi ymateb i’r holiadur na atebodd pob un o’r 192 o rieni bob cwestiwn.

Camau gweithredu eraill a nodwyd o’r asesiad yw:

- Ymchwilio i fylchau daearyddol a math
- Cefnogi’r gweithlu a datblygiad

Er mwyn cael syniad o beth allai fod yn atal y defnydd o ofal plant, gofynnwyd i'r ymatebwyr pam nad ydynt yn defnyddio gofal plant ar gyfer eu plant. Rhoddodd 60 o'r ymatebwyr y rhesymau canlynol:

| Datganiad | CF31 | CF32/39 | CF33 | CF34 | CF35 | CF36 | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae fy mhlentyn ar restr aros am ddarparwr ac rydym yn aros i le fod ar gael | 2 | | | | | 1 | **4***ni ddarparodd un ymatebydd god post* |
| Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol e.e. aelod o'r teulu neu ffrind | | | | | 1 | | **1** |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant | | | | | 1 | | **1** |
| Rwy'n rhiant sy'n aros gartref ac nid wyf angen gofal plant | 1 | | | | 1 | 2 | **4** |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanyn nhw eu hunain | 1 | | | | | | **1** |
| Nid oes gofal plant o ansawdd digonol ar gael | 2 | 2 | 1 | | 1 | 1 | **7** |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas ar gael | | 1 | | | | 2 | **3** |
| Nid oes darpariaeth addas ar gael yn ein hiaith ni (nid Cymraeg na Saesneg) | | | | | | | **0** |
| Nid yw'r gofal plant yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion i | 2 | 2 | 1 | 1 | | 3 | **9** |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 14 | 4 | 2 | 4 | 7 | 5 | **36** |
| Mae amseroedd gofal plant yn anaddas | 2 | 2 | 1 | | 1 | 3 | **9** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nid oes gofal plant ar gael sy’n addas i oedran fy mhlentyn | 2 | 3 | 2 | | | | **7** |
| Mae yna broblem gyda chludiant | | | | | 1 | | |
| Nid oes gofal plant ar gael ble rwyf ei angen | 5 | 5 | 2 | | 1 | 1 | **14** |
| Nid oes gofal plant a all ddiwallu anghenion penodol fy mhlentyn | 2 | | | | | | **2** |
| Dim ond yn achlysurol rwyf yn defnyddio gofal plant ac mae’n amhosibl cynllunio | 2 | | | | | 1 | **3** |
| Arall | 2 | 1 | | | 1 | 2 | **6** |

O’r datganiadau ‘arall’, darparwyd yr isod:

*‘Dwi’n defnyddio gofal plant drwy’r amser’*

*‘Mae un plentyn yn mynd i ofal plant. Dyw ein mab sydd ag anghenion ychwanegol ddim yn gallu cael mynediad at y gofal priodol y tu hwnt i’r uned BASE’*

*‘Mae yna ddiffyg gofal plant oedran priodol sy’n gymwys am gymorth Credyd Cynhwysol ar gyfer plant 11 oed a hŷn’*

*‘Dyw fy mabi ddim angen gofal plant am ychydig fisoedd eto’*

*‘Y prif reswm yw’r gost sy’n fy ngorfodi i ddweud wrth fy nghyflogwr fy mod i’n gadael gan fod fy nghyflog i ddim yn talu am y gofal plant sydd ei angen i wneud fy swydd.’*

*‘Dwi’n warchodwr plant felly dwi ddim angen gofal plant i’m plant fy hun.’*

Mae gofal plant yn cael ei ystyried yn rhy ddrud gan dros hanner (60%) y rhai sydd ddim yn ei ddefnyddio. O’r 36 o ymatebwyr a ddywedodd fod gofal plant yn rhy ddrud, nodwyd y canlynol fel incwm y cartref ac yn y wardiau canlynol:

| **Incwm cartref wythnosol ar gyfartaledd** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyd at £100 | | | | | 1 | | **1** |
| £100 - £149 | 1 | | | | | | **1** |
| £150 - £249 | 4 | | | 1 | | | **5** |
| £250 - £349 | 1 | | | 1 | 1 | | **3** |
| £350 - £499 | | | | | | | **0** |
| £500 - £580 | | | | 1 | | | **1** |
| £581 - £749 | 1 | 2 | 1 | | | | **5*** ***1 cod post heb ei ddarparu*** |
| £750 - £999 | 3 | 1 | 1 | | 1 | 2 | **8** |
| Mwy na £1000 | 1 | | | | 2 | 1 | **4** |
| Ddim am ddweud | 1 | | | | 2 | 2 | **5** |
| Dim ateb | 2 | 1 | | | | | **3** |

Dywedodd 88% o'r rhieni a holwyd eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'dueddol o gytuno' â'r datganiad bod gofal plant yn rhy ddrud.

Casgliad: Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i ofal plant. Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i deuluoedd am gymorth ariannol posibl.

**Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg, dywedodd 5% o'r 131 eu bod a 91% nad oeddynt.

O'r 122 a atebodd gwestiwn pellach am a fyddent yn hoffi cael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg, derbyniwyd yr ymatebion canlynol (gyda gwybodaeth am wardiau):

| **Ateb** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn – 12% | 7 | 2 | 2 | | 3 | 1 | 15 |
| Efallai – 18% | 6 | 5 | 3 | | 6 | 2 | 22 |

Dywedodd 66% arall 'na fyddwn', gyda 4% yn dweud 'ddim yn gwybod'.

Gan ddadansoddi hyn ymhellach, pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddynt yn defnyddio darpariaeth Gymraeg, rhoddodd 31 o'r ymatebwyr y rhesymau canlynol:

*(Nodwch fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag 1 rheswm)*

| **Pellter** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 42% | 5 | 2 | 2 | | 2 | 2 | 13 |

| **Argaeledd** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 68% | 7 | 5 | 2 | | 5 | 2 | 21 |

| **Ansawdd y gofal** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0% | | | | | | | |

| **Gallu ieithyddol y staff** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16% | 1 | | 1 | | 3 | | 5 |

| **Cost** | **CF31** | **CF32/39** | **CF33** | **CF34** | **CF35** | **CF36** | **Total** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16% | 1 | | 1 | | 3 | | 5 |

Darparwyd sylwadau ychwanegol:

'*Does dim gofal plant Cymraeg yn agos at ble dwi'n byw. Mae'r ysgol Gymraeg yn weddol agos ond mae'r cylch meithrin yn bellach o lawer. Does dim meithrinfeydd dydd Cymraeg i'w cael yn sir Pen-y-bont - dim ond cylchoedd sydd ddim yn addas i rieni sy'n gweithio gan nad ydyn nhw'n darparu gofal trwy'r dydd.'* Rhiant CF32

*'Does dim meithrinfeydd dydd Cymraeg preifat ym Mhen-y-bont. Dwi'n gwybod bod yna gynlluniau i adeiladu lleoliadau newydd erbyn 2023 ond does dim byd ar gael nawr i'm mab. Dim ond darpariaeth ran-amser sydd gan y cylch meithrin a dwi'n methu cael fy mhlentyn o un lle i'r llall gan fy mod i'n gweithio'n llawn amser'* Rhiant CF33

*'Dim byd yn yr ardal lle dwi'n gweithio felly byddai gollwng a chasglu'n anodd. Ond mae'r gwarchodwr yn defnyddio ychydig o Gymraeg'*
Rhiant CF32

*'Does dim cyfleuster gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant o dan 2 oed ar y funud sy'n siomedig iawn. Dwi'n awyddus i anfon fy mhlentyn i gyfleuster gofal plant llawn amser sy'n darparu popeth drwy'r Gymraeg'*
Rhiant CF31

*'Dyw llawer o leoliadau gofal plant ddim yn darparu ar gyfer gweithwyr shifftiau, dim ond ar gyfer y rhai sy'n gweithio oriau arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener'*
Rhiant CF35

*'Doedd gen i ddim syniad ble na pha fath o ofal plant Cymraeg oedd ar gael ers i'm plentyn fynychu gofal plant pan oedd yn 1 oed. Doeddwn i ddim yn gwybod ble i gael y wybodaeth hon'*
Rhiant CF31

*'Does dim cylch meithrin i'w gael am filltiroedd a dim meithrinfeydd dydd Cymraeg yn sir Pen-y-bont – dyw cylchoedd meithrin ddim yn cynnig gofal plant am ddigon o oriau i rieni sy'n gweithio'*
Rhiant CF32

*'Mae sesiynau'n rhy fyr ac anhyblyg'*
Rhiant CF33

Gan fod 66% o'r ymatebwyr wedi nodi nad ydynt eisiau gofal plant Cymraeg nid yw'n ymddangos bod yna alw neu fylchau sylweddol.

Fodd bynnag, dywedodd 30% eu bod am gael darpariaeth Gymraeg neu efallai yr hoffent ei gael gyda diffyg argaeledd, pellter ac oriau annigonol yn cael eu nodi fel y prif rwystrau.

Ar sail sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan y rhieni/gofalwyr mae'n ymddangos bod yna fwlch o ran 'math' ar gyfer gofal plant trwy'r dydd yn y sir. Dangosir hyn gan y sylwadau am hyd amser agor y darpariaethau cyfredol.

Casgliad: Dylid cynyddu darpariaeth Gymraeg, yn enwedig gofal trwy'r dydd. Yn dilyn ymatebion y rhieni/gofalwyr, mae'r bylchau daearyddol canlynol wedi'u nodi o fewn y data cyflenwad hefyd: CF31, CF36 a CF39

**Gofal plant annodweddiadol**

Dywedodd dau ymatebydd y byddai yn gynnar yn y bore yn fuddiol gan eu bod yn gweithio shifftiau.

Nid oes gofal plant yn cael ei ddarparu dros nos nac ar y penwythnos ar hyn o bryd. Ni ddywedodd yr un ymatebydd ei fod angen hyn yn y dyfodol. Mae'n rhaid nodi hyn fel bwlch 'MATH' ledled Pen-y-bont ar Ogwr.

Casgliad: Ymchwilio ymhellach i'r galw am ofal plant annodweddiadol ledled y fwrdeistref sirol.

**Gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol**

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (64%) yn fodlon ag ansawdd y gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda 19% yn anghytuno. Roedd nifer arwyddocaol o ymatebwyr (20) yn anfodlon â gofal plant yn CF31 yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda saith yn anfodlon yn CF35.

Mae gofal plant yn ystod y gwyliau wedi'i leoli'n dda ar draws y sir ond yn cael ei gynnig mewn amrywiaeth o wahanol 'fathau' o ddarpariaeth, yn cynnwys meithrinfeydd dydd, gwarchodwyr plant a chlybiau gwyliau 'annibynnol' y tu allan i'r ysgol. Mae yna rai bylchau daearyddol, yng nghymoedd Garw ac Ogwr (CF32 a CF39). Fodd bynnag, dangosodd yr arolwg rhieni/gofalwyr anfodlonrwydd yn CF31 a CF35, lle mae yna fwy o ddarpariaeth.

Casgliad: Archwilio'r galw am ddarpariaeth yn ystod y gwyliau, gan nodi a yw'r bwlch yn fwlch math a/neu ddaearyddol.

**Gofal plant ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol**

Dywedodd tri ymatebydd eu bod yn cael trafferth cael gafael ar ofal plant yn sgil anghenion ychwanegol eu plentyn. O'r tri, roedd gan un blentyn awtistig ac yn byw yn

CF36. Ni nododd y ddau riant arall unrhyw gyflwr heblaw bod gan eu plentyn anghenion ychwanegol. Roedd un yn byw yn CF31 a'r llall yn CF35.

Cafwyd cynnydd arwyddocaol mewn plant sydd angen cymorth ychwanegol yn eu darpariaeth gofal plant. Mae'n rhaid i'r cymorth ar gyfer y sector gofal plant i ddiwallu anghenion plant ag ADY barhau a chynyddu, lle bo angen. Mae'r gwaith partneriaeth ar draws y Gwasanaeth Cynhwysiant a'r Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn gryfder y mae'n rhaid i'r cymorth ychwanegol adeiladu arno.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac adolygu'r Grant Cymorth Ychwanegol ar gyfer y sir i sicrhau bod pob plentyn cymwys yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan y Cynnig Gofal Plant.

| |
|---|
| Casgliad: Sicrhau bod anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gallu cael eu diwallu mewn lleoliadau gofal plant. |

**Darpariaeth gwarchod plant**

Nododd wyth ymatebydd yn yr ardaloedd canlynol ddiffyg gwarchodwyr plant yn arbennig: CF31, CF32 a CF35.

Mae bylchau daearyddol wedi'u nodi yn CF32/39, CF34, a CF36.

Fel y nodwyd gydol yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant mae niferoedd gwarchodwyr plant wedi gostwng dros y 5 mlynedd diwethaf, ac yn enwedig gydol y pandemig.

| |
|---|
| Casgliad: Cynyddu nifer y gwarchodwyr plant ledled y sir, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae angen penodol.<br>Ymchwilio ymhellach i'r rhesymau dros y gostyngiad a hyrwyddo manteision gyrfa gofal plant, a gwarchod plant yn arbennig. |

**Argaeledd darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau**

Cafodd diffyg darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau ei nodi'n arbennig gan 11 ymatebydd yn yr ardaloedd canlynol: CF31 (8 ymatebydd), ac un ymatebydd o CF32, CF33 a CF36.

| |
|---|
| Casgliad: Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu gofal plant y tu allan i'r ysgol ar safleoedd ysgolion. |

**Gwybodaeth i Deuluoedd**

Gydol yr arolwg rhieni/gofalwyr, ac ymgynghoriadau eraill, mae yna awgrymiadau nad oedd rhai ymatebwyr yn llwyr ymwybodol o wybodaeth am ofal plant. Mae hyn wedi'i nodi fel blaenoriaeth gan Dîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r Gwasanaeth Gwybodaeth

Teuluoedd corfforaethol. Bydd hon yn flaenoriaeth barhaus fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

Casgliad: Gwella mynediad at wybodaeth ac ansawdd gwybodaeth sydd ar gael i deuluoedd.

**Ystyriaethau nodedig eraill gan rieni/gofalwyr**

Dywedodd 80% o'r 189 o ymatebwyr eu bod yn fodlon â'u gofal plant yn ystod y tymor.

Roedd 83% o'r 188 o ymatebwyr yn cytuno fod eu gofal plant o ansawdd uchel.

Mae 50% o'r 190 o ymatebwyr yn cytuno bod yna ddewis da o ofal plant yn eu hardal, gyda 43% yn anghytuno.

Mae 69% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gofal plant wedi'i leoli'n dda, gyda 24% yn anghytuno.

Mae 78% o'r 188 o ymatebwyr yn cytuno bod gofal plant yn diwallu anghenion eu plant.

Mae 38% o'r 189 o ymatebwyr yn cytuno bod gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth/hyfforddiant, gyda 34% yn anghytuno.

Mae 28% o'r 189 o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant, gyda 60% yn anghytuno.

Atebodd 130 o ymatebwyr y cwestiwn yn gofyn a oedd gofal plant wedi achosi unrhyw broblemau gyda'r canlynol:

Achosi problemau yn y gwaith: 76%
Wedi atal cyflogaeth barhaus: 27%
Wedi rhoi'r gorau i weithio: 25%
Wedi rhoi'r gorau i hyfforddiant: 21%

Casgliad: Mae mwyafrif y rhieni'n fodlon â'u gofal plant. Mae lefel y gofal plant ledled y sir yn ddigonol ar y cyfan i ddiwallu anghenion y teuluoedd hynny sydd mewn cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith. Fodd bynnag, mae yna fylchau daearyddol a math penodol sydd angen eu hymchwilio a'u datblygu ymhellach.

**Y Gweithlu a Datblygiad**

Mae'r sector gofal plant wedi cael dwy flynedd gythryblus o ganlyniad i'r pandemig. Nid oedd galw am y gweithlu ar adegau ac roedd yn teimlo nad oedd yn cael ei

werthfawrogi. O ganlyniad i hyn, mae cadw a recriwtio ymarferwyr gofal plant wedi dod yn broblem genedlaethol.

Mae lleoliadau gofal plant ledled sir Pen-y-bont wedi mynegi eu pryderon am broblemau cynaliadwyedd a staffio parhaus, ochr yn ochr â'r effaith y mae newidiadau yn sgil COVID-19 wedi'i gael ar alw gan rieni.

Casgliad: Er mwyn cynnal y ddarpariaeth gofal plant bresennol, yn ogystal â datblygu darpariaeth newydd, mae'n rhaid i gymorth ar gyfer y sector a'r gweithlu barhau a rhaid iddo gael ei dargedu i fwy o raddau. Mae'n rhaid i'r sector fod yn barod i fodloni'r galw cynyddol am y cynnig gofal plant 2 flynedd a ariennir.